# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Mai 2024

Amser: 09.01 - 10.46

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13899

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o’r Senedd: | Sarah Murphy AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

Nid oedd unrhyw eitemau i'w hystyried.

## 3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 3.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Grwpiau Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a daeth i law mewn perthynas â chyfarfodydd y canlynol:

- Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo;
- Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer y Diwydiannau Creadigol a Diwylliant; a'r
- Grŵp Rhyngweinidogol Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd.

### 3.2 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Symud Nwyddau (Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr) (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Darpariaeth Ddarfodol a Diwygiadau Amrywiol) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 3.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar: Rheoliadau Honiadau Iechyd (Dirymu) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar.

### 3.4 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion.

### 4.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol at Brif Weinidog Cymru: Gwaith craffu blynyddol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol at Brif Weinidog Cymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cyfiawnder Troseddol

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a chytunodd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â Rheol Sefydlog 29.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a chytunodd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio): Adroddiad drafft

Trafododd a chytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), yn amodol ar fân newidiadau. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â Rheol Sefydlog 29.

## 10 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Gohebiaeth ddrafft at y Pwyllgor Cyllid

Trafododd y Pwyllgor a chytunodd ar lythyr i'w anfon at y Pwyllgor Cyllid.

## 11 Cytundebau Rhyngwladol

Trafododd y Pwyllgor y cytundebau rhyngwladol a ganlyn:

- DU/Denmarc: Cytundeb ar gyfranogiad gwladolion y ddwy wlad sy'n byw yn nhiriogaeth y llall mewn etholiadau penodol;
- Sefydliad Coedwig y DU/Ewrop: Cytundeb Gwlad Lletyol;
- Confensiwn ar Sefydlu'r 'Rhaglen Brwydro Aer Byd-eang - GCAP Sefydliad Llywodraeth Rhyngwladol';
- DU/Hwngari: Cytundeb ynghylch Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol;
- Cytundeb Gwasanaethau Awyr y DU-Sawdi Arabia;
- DU/Bahrain: Cytundeb ynghylch Gwasanaethau Awyr;
- Cytundeb yr Hâg ar Ddyfarniadau Tramor; a’r
- Banc Rhyngwladol ar gyfer Ailadeiladu: Diwygio Erthyglau Cytundeb y Banc Rhyngwladol ar gyfer Ailadeiladu a Datblygu (IBRD) i ddileu'r Terfyn Benthyca Statudol (SLL).

Cytunodd y Pwyllgor i drafod ei adroddiad drafft ar y cytundebau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Blaenraglen waith

Nododd a chytunodd y Pwyllgor ar ei flaenraglen waith. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i wahodd y Gweinidogion gyda phortffolios sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor i sesiynau craffu cyffredinol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i wahodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol i sesiwn dystiolaeth yn nhymor yr haf.